

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Exodus 16:1-32



ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 6:35

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon.

Stori I Duw'n rhoi bwyd i'r Israeliaid

Roedd Duw wedi bod mor dda wrth yr Israeliaid! Mae'n anodd credu eu bod wedi dechrau cwyno cyn pen dim. Roedden nhw wedi bwyta'r holl fwyd roedden nhw wedi ei gario, felly dyma nhw'n dechrau achwyn wrth Moses. Pe baen nhw wedi aros yn yr Aifft, fydden nhw ddim wedi bod yn newynu, meddent wrth Moses. Trueni nad oedden nhw'n barod i ymddiried y byddai Duw yn eu helpu! Roedd Gando gynllun arbennig i sicrhau y byddai bwyd ar gael i'w bobl Ef bob amser.



C Rhowch ✓ neu X wrth ymyl pob brawddeg i ddangos a yw'n gywir neu'n anghywir

Roedd y bobl yn ymddiried yn Nuw am eu bwyd.

Byddai'n well ganddynt fod nôl yn yr Aifft.

Dechreuon nhw gwyno wrth Moses.

6

Sul	Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad
✓	✓	✓	✓	✓	✓✓	X

Esboniodd Duw wrth Moses sut y byddai Ef yn anfon bara o'r Nefoedd. Roedd y bobl i gasglu'r bara bob bore. Ar y chweched dydd o bob

wythnos, roedd rhaid iddyn nhw gasglu dwywaith gymaint, er mwyn cael digon dros y Sabath (diwrnod arbennig Duw). Bob nos hefyd, byddai Duw'n rhoi cig iddyn nhw (gweler adnod 13).




Fore trannoeth, roedd pawb yn rhyfeddu at yr hyn oedd i'w weld. Gorweddai caenen wen, denau fel rhew dros y tir. Esboniodd Moses mai bara arbennig o'r Nefoedd oedd y cen gwyn. Roedd pob un i gasglu digon ar gyfer y bobl oedd yn byw yn ei babell ac yna'i goginio. Doedd neb i gadw dim tan y diwrnod wedyn. Yn anffodus, anufuddhaodd rhai i orchymyn Duw. "Manna" oedd yr enw a roddodd y bobl ar y bara arbennig hwn. Roedd rhaid ei fod yn flasus oherwydd dywed y Beibl ei fod yn blasu fel mîl!

Darparodd Duw fanna ar gyfer yr Israeliaid hyd nes iddynt ddod i ben eu taith.

C Defnyddiwch y cliwiau isod i'ch helpu i lanw'r atebion ar y Grid Geiriau.

1. Roedd y bara'n gorwedd ar y ddaear yn y
2. Cawsant gig gan Dduw gyda'r nos.
3. Daeth y bara o'r
4. Roedd yn blasu fel.....
5. Doedd dim bara ar y dydd



12

C Copiwrch y 5 llythyren dan y * er mwyn sillafu enw'r bara.

— — — — — .

Flynnyddoedd lawer wedi hyn, esboniodd lesu mai Ef yw Bara'r Bywyd a ddaeth o'r Nef. Cadwodd y manna yr Israeliaid yn fyw wrth iddyn nhw deithio drwy'r anialwch. Daeth yr Arglwydd lesu i lawr o'r Nefoedd i farw dros ein pechodau er mwyn i ni gael bywyd tragwyddol. Pan fyddwn yn ymddiried ynddo Ef, gallwn fod yn sicr Ei fod yn cwrdd â'n holl anghenion.



C Lliwiwrch yr Adnod Allweddol

Dyweddodd lesu,

Myfi yw
Bara'r

Bywyd."

2

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw _____




DARLLENWCH
Exodus 17:8-15



ADNOD
ALLWEDDOL
Exodus 17: 15

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon.

Stori 2 Duw'n rhoi'r fuddugoliaeth



Cyn hir, roedd gan yr Israeliaid broblem arall. Dechreuodd byddin un o'u gelynion, sef yr Amaleciaid, ymosod arnynt. Byddai'n rhaid i'r Israeliaid eu hymladd, felly dywedodd Moses wrth ei gynorthwywr, Josua, am ddewis ei fyddin. Aeth Moses, Aaron a Hur i ben bryn uwchlaw maes y frwydr. Cariodd Moses wialen Duw gydag ef a daliodd hi rhwng ei ddwylo. Roedd hyn yn dangos fod yr Israeliaid yn ymddiried y byddai Duw yn eu helpu i ennill.

Cyhyd ag y byddai Moses yn gwneud hyn, roedd yr Israeliaid yn ennill, ond pan fyddai'n gollwng ei

freichiau, y gelyn oedd yn ennill. Pe baech yn dal eich dwylo uwch eich pen am amser hir, fe fydddech yn teimlo'ch breichiau'n dechrau blino!

Felly hefyd Moses, ond daeth Aaron a Hur o hyd i garreg fawr iddo eistedd arni. Buon nhw'n helpu i gynnal ei freichiau nes i'r haul faclud. Erbyn hynny, yr Israeliaid oedd y buddugwyr! Rhoddwyd y gwaith pwysicaf yn y frwydr i Moses – pwysicach na Josua a'r holl filwyr. Enillwyd y frwydr oherwydd ei fod yn codi ei ddwylo at Dduw, ac yn dibynnu ar Dduw am help. Rhoddodd Duw fuddugoliaeth i'r Israeliaid am eu bod yn ymddiried Ynddy.

C PWY?

Pwy ddewisodd y fyddin?

Pwy gododd wialen Duw?

Pwy fu'n cynnal breichiau Moses?

 a


Pwy oedd y gelyn?

Pwy roddodd fuddugoliaeth i'r Israeliaid?

C Ysgrifennwch y frawddeg gywir o dan y llun cywir

Roedd yr Israeliaid yn ennill.


Roedd yr Israeliaid yn colli.



4

Mae gelyn gan Gristnogion hefyd - Satan. Ond mae'r Beibl yn dweud wrthym fod yr Arglwydd Iesu'n gryfach na Satan. Mae Duw am i ni ddangos ein bod yn ymddiried ynddo Ef er mwyn cael buddugoliaeth dros Satan. Gallwn wneud hyn drwy weddio ar Dduw, a chredu y bydd Ef yn ein helpu ac yn ein gwarchod. Ar ddiwedd y stori, adeiladodd Moses allor o gerrig er mwyn diolch i Dduw am y fuddugoliaeth

C Beth oedd yr enw roddodd Moses ar yr allor? Gallwch ddod o hyd i'r enw drwy adael allan y llythrennau X a Z. Ysgrifennwch yr enw o dan y llun. (Mae'r ateb yn yr Adnod Allweddol)



ZBZXAZXNEZXRXZXYZRXZAXRZZGZXLZXWYXDXD

4

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw



DARLLENWCH
Exodus 19 a 20





ADNOD
ALLWEDDOL
Exodus 20: 1

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon.

Stori 3 Duw'n rhoi gorchmynion

Ar ôl teithio ymhellach, cyrhaeddodd y bobl fynydd mawr Sinai ac aethant ati i godi gwersyll. Dyma'r fan y byddai Duw yn cwrdd â Moses ac yn rhoi iddo orchmynion, neu reolau, i'r Israeliaid eu cadw. Esboniodd Duw y byddai'n disgyn i ben y mynydd mewn cwmwl trwchus. Dywedodd wrth Moses am osod ffin o gwmpas godre'r mynydd fel na fyddai neb yn dechrau ei ddringo. Er bod y bobl wedi ymolchi ac wedi paratoi eu hunain, doedd dim modd i neb ddod yn agos at Dduw, gan ei fod Ef yn sanctaidd ac yn ddibechod. Dri diwrnod yn ddiweddarach, safai'r bobl wrth droed y mynydd. Roedd yr olygfa'n un arswyodus iawn - crynai'r mynydd a chwythai fwg o'i grumbil. Roedd Duw'n dangos i'r bobl pa mor nerthol yw Ef mewn gwirionedd. Yna galwodd Duw ar Moses i ddringo Ato. Unwaith eto, dywedodd Duw wrth Moses am sicrhau na fyddai neb arall yn ceisio dringo'r mynydd. Cadwyd y bobl bellter i ffwrdd oddi wrth Dduw oherwydd eu pechod. Mae ein pechod ni hefyd yn ein cadw oddi wrth Dduw.



C Tynnwch linell o bob blwch i'r geiriau a'r brawddegau cywir.

Duw

pechadurus

wrth odre'r mynydd

sanctaidd

Y bobl

ar ben y mynydd

Yn ddiweddarach, aeth Moses i fyny i'r mynydd i dderbyn gorchmynion Duw. Roedd y gorchmynion hyn yn dysgu'r bobl sut rodden nhw i drin Duw a sut y dylen nhw ymddwyn tuag at ei gilydd.

Y Deg Gorchymyn

1 Na chymer dduwiau eraill ar wahân i mi.

2 Na wna i ti ddelw gerfiedig.

3 Paid â chamdefnyddio Enw Duw.

4 Cadw Dydd Duw yn ddydd arbennig.

5 Anrhydedda dy dad a' th fam.

6 Na ladd.

7 Paid â bod yn anffyddlon.

8 Na ladrata.

9 Paid â dweud celwyddau.

10 Paid â chwennych eiddo pobl eraill.

C Sawl gorchymyn roddodd Duw?

P'un sy'n dweud wrthym am beidio â dwyn? Rhif

P'un sy'n dweud wrthym sut y dylem drin ein rhieni? Rhif

6

Doedd hi ddim yn bosibl i'r bobl gadw gorchymion Duw. Mae pob un ohonom yn bechadur ac rydym wedi torri gorchymion Duw. Does wahaniaeth pa mor galed y byddwn ni'n ymdrechu, rydym yn dal i bechu a fedrwn ni ddim plesio Duw. Yr Arglwydd lesu yw'r unig Berson sydd wedi byw bywyd perffaith ar y ddaear. Oherwydd hyn, gall Ef fod yn Waredwr i ni. Bu farw er mwyn cymryd y gosb am ein pechodau, er mwyn i Dduw faddau i ni ac i ni gael heddwch gydag Ef.



C Oedd yr Israeliaid yn gallu cadw'r gorchymion?

Ydych chi'n gallu cadw'r gorchymion?

6

A lwyddodd yr Arglwydd lesu i gadw holl orchymion Duw?

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw _____



DARLLENWCH
Numeri 21:4-9



ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 3:14

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon

(Byddai Iesu yn ei alw'i
Hun yn aml yn 'Fab y Dyn')


Stori 4 Duw'n rhoi gorchmynion

Roedd yr Israeliaid wedi bod yn teithio drwy'r anialwch am amser hir. Ond, rodden nhw'n dal i gwyno, gwaetha'r modd.



Roedd Duw'n dal i roi manna iddyn nhw. Roedden nhw mor anniolchgar! Digiodd Duw wrthynt oherwydd eu cwynion a phenderfynodd eu cosbi. Cyn hir daeth seirff (nadroedd) gwenwynig i'r gwersyll. Brathwyd y bobl a buodd nifer farw. Gwyddai'r bobl mai nhw oedd ar fai, felly daethant at Moses. "Rydym wedi pechu yn erbyn Duw," medden nhw. "Os gweli'n dda, gweddia ar Dduw i fynd â'r seirff." Gweddiodd Moses ar Dduw. Dywedodd Duw wrth Moses am wneud rhywbeth rhyfedd. Roedd yn rhaid iddo wneud sarff o bres (metel o ryw fath) a'i gosod ar bolyn yn y gwersyll.

C Gosodwch y brawddegau o'r stori yn eu trefn drwy eu rhifo 1-5. Mae rhif 1 wedi ei wneud drosoch.



- Bu farw nifer o bobl.
- Roedd yr Israeliaid yn grwgach am fwyd a dŵr
- Dywedodd Duw wrth Moses am gymryd polyn a gosod sarff bres arno.
- Anfonodd Duw seirff i'w brathu.
- Gofynnodd y bobl i Moses weddio ar Dduw.

Addawodd Duw na fyddai unrhyw un oedd wedi'i frathu yn marw, dim ond iddo edrych ar y sarff ar y polyn. Roedd pawb oedd yn credu hyn ac yn uffuddhau i Dduw yn cael byw. Dyna ffordd hawdd i osgoi marwolaeth!




4

C Cysylltwch y dotiau i ffurfio'r sarff, a chwblhewch y frawddeg.

Er mwyn osgoi marwolaeth, roedd rhaid i'r Israeliaid e _____ ar y sarff ar y polyn.

Flynnyddoedd yn ddiweddarach, esboniodd yr Arglwydd lesu sut y mae'r stori hon yn dysgu gwers bwysig i bawb. Fel yr Israeliaid, mae pob un ohonom ninnau hefyd wedi pechu yn erbyn Duw. Ond mae Duw wedi paratoi ffordd i ni ddianc rhag y gosb am ein pechoda. Cafodd yr Arglwydd lesu ei "ddyrchafu" (godi'n uchel) i farw drosom. Pan fyddwn yn credu hyn drosom ein hunain, mae Duw'n rhoi i ni fywyd trwyddol, a chawn ein hachub!



C Defnyddiwch un lliw i liwio pob siâp sy'n cynnwys dot, i ddarganfod ble cafodd yr Arglwydd lesu ei ddyrchafu.

2

C Gosodwch y geiriau canlynol yn yr Adnod Allweddol.

sarff (neu neidr)

ddyrchafu

anialwch

"Ac fel y dyrchafodd Moses y _____ yn yr _____, felly hefyd y mae'n rhaid i Fab y Dyn gael ei _____."

6

Ioan 3: 14

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, PO Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynys Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120